



Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.
- Bydd grŵp gwirfoddol newydd yn rhoi safbwyntiau pobl ifainc.
- Prif swyddogion newydd yn Nyfed-Powys
- Diogelu? Beth mae hyn wir yn ei olygu?
- Darganfydd wch mwy am sut y gallwch chi gymryd rhan yng ngwaith Awdurdod yr Heddlu.

Yn y rhifyn diwethaf, dywedom wrthyfych am ddeddf newydd a fyddai'n effeithio ar bobl ifainc yn lleol. Bydd y ddeddf yn cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mis Tachwedd eleni, a'u gwaith fydd dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad yr heddlu. Ond sut yn union fydd hynny'n effeithio arnoch chi?

Mae'n rhaid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu sicrhau ei fod yn siarad gyda phobl sy'n byw'n lleol a gofyn iddynt a oes unrhyw broblemau yn eu hardal megis mathau arbennig o droseddau. Unwaith fydd

eich atebion ganddynt, byddant yn medru sicrhau bod yr heddlu'n mynd i'r afael â'r problemau hynny sy'n golygu y gallwch deimlo'n fwy diogel.

Mae'n bwysig bod gennych lais. Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu eisiau'ch atebion chi ac er nad oes modd iddynt siarad â phawb, bydd ffyrdd eraill y gallwch ddweud eich barn wrthyfych. Mae rhagor o fanylion am sut i wneud hyn ar dudalen 4.

Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n gweithio'n agos gyda phrif

swyddog yr Heddlu, sef y Prif Gwnstabl. Y Prif Gwnstabl yw pennaeth yr heddlu a'i swydd hi yw sicrhau bod y swyddogion heddlu rydych yn eu gweld ar y strydoedd ac yn eu ceir yn gwneud y gwaith y dylent fod yn gwneud.

Bydd pobl sy'n 18 oed neu'n hŷn ac sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro neu Phowys yn pleidleisio dros Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Bydd y pleidleisio'n digwydd ar 15 Tachwedd a bydd y Comisiynydd yn cychwyn ar ei swydd ar 22 Tachwedd.

Dywedoch chi—Gwnaethom ni.

Yn eich barn chi, beth ddylai'r heddlu fod yn mynd i'r afael ag ef yn eich ardal chi dros y 12 mis nesaf?

Yn y flwyddyn ddiwethaf, dywedodd 225 o bobl dan 24 oed beth oeddynt yn credu y dylai'r heddlu fod yn mynd i'r afael ag ef yn eu hardal lleol. Roedd 120 o'r

rheiny'n 16 oed neu iau. Dywedoch wrthyfych mai ymddygiad gwrthgymdeithasol oedd y broblem a oedd yn eich poeni fwyaf yn eich ardal felly fe wnaethom y mater hwn yn brif flaenoriaeth i'r heddlu fynd i'r afael ag ef yn y flwyddyn nesaf. Bydd

eu hymdrechion yn eich helpu i deimlo'n fwy diogel yn eich cymuned.

Mae croeso i chi ddweud wrthyfych pa faterion (os oes rhai) sydd dal yn eich gofidio. Gallwch wneud hyn drwy alw heibio i www.xray99.co.uk a chlicio ar y tudalennau "Dweud Eich Dweud".



Prif swyddogion newydd yn Nyfed-Powys.

Mae'n dda gan Awdurdod yr Heddlu ddweud wrthyfch y bu newidiadau i dri phrif swyddog yn Nyfed-Powys.

Yn gyntaf oll, mae gennym Brif Gwnstabl newydd, Ms Jackie Roberts.



Mae'r Prif Gwnstabl Roberts wedi bod yn Ddirprwy Brif Gwnstabl yn Nyfed-Powys ers pedair blynedd ac mae'n falch mai hi yw'r Prif Gwnstabl newydd yn dilyn ymddeoliad Mr Ian Arundale QPM.

Yn ail, Mr Nick Ingram yw'n Dirprwy Brif Gwnstabl newydd. Ef oedd ein Prif Gwnstabl Cynorthwyol.



Hefyd, mae gennym Brif Gwnstabl Cynorthwyol newydd, sef Mr Carl Langley.

Mae'r Awdurdod yn falch y bydd y tri phrif swyddog hyn yn arwain y Gwasanaeth Heddlu yn Nyfed-Powys.

CANOLBWYNTIO AR: *Gwirio pobl mewn celloedd heddlu!*

"Mae gan bobl sydd wedi'u rhoi yng nghelloedd yr heddlu hawliau hefyd".

**ACHOSION O
STOPIO GAN
YR HEDDLU
GWYBOD EICH
HAWLIAU**



**KNOW YOUR
RIGHTS
POLICE
STOPS**

Wyddoch chi fod nifer o hawliau gan bobl sy'n cael eu harestio neu eu cymryd i gelloedd heddlu? Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i fwya diod, yr hawl i siarad gyda chyfreithiwr, yr hawl i flanced os ydynt yn oer a'r hawl i gael rhywun wedi'u hysbysu eu bod mewn cell heddlu. Gelwir y bobl sy'n cael eu cadw mewn celloedd heddlu yn garcharorion. Ond sut ydych chi'n gwybod eu bod yn cael eu hawliau?

Mae yna bobl sy'n rhoi o'u hamser eu hun yn ddi-dâl sy'n ymweld â chelloedd heddlu er mwyn siarad â'r bobl sydd yn y ddalfa. Maent yn gofyn llawer o gwestiynau iddynt ond nid ydynt yn gwneud hynny yng nghlyw'r Heddlu am eu bod eisiau i'r bobl deimlo'n rhydd i siarad. Gelwir y bobl hyn yn Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Maent bob tro'n ymweld â gorsafoedd heddlu mewn parau ac ar ddiwedd eu hymweliad maent yn ysgrifennu adroddiad a'i anfon at Awdurdod yr Heddlu fel ein bod ni'n medru cadw

Ilygad ar berfformiad yr Heddlu a sut y maent yn trin pobl sydd yn nalfa'r Heddlu.

Nid yw Ymwelwyr Annibynnol yr Heddlu'n aelodau o staff yr Heddlu nac Awdurdod yr Heddlu. Mae hyn yn bwysig gan fod angen ein bod ni'n medru dibynnu arnynt i weithredu fel llygaid a chlustiau'r cyhoedd wrth adrodd ar yr hyn maent yn gweld.

Mae'n rhaid i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa fod yn 18 oed neu'n hŷn oherwydd eu bod yn ymweld â chelloedd heddlu ac mae gan Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys nifer o Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa sydd o dan 25 oed. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn cael ystod eang o safbwyntiau gan gynnwys rhai o bersbectif ifancach.

Bydd y cynllun hwn yn parhau ar ôl i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau gael ei ethol gan y byddan nhw hefyd yn gyfrifol am oruchwylio Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Os ydych eisiau gwybod mwy am Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, galwch heibio i wefan yr Awdurdod. Ceir manylion ar dudalen 4.

Eich Diogelu CHI!! - Beth mae hynny wir yn ei olygu?

Mae diogelu yn derm sy'n cael ei ddefnyddio gan nifer o bobl sydd â'r gwaith o ofalu amdanoch. Er enghraifft yr heddlu; y gwasanaeth tân; y gwasanaethau cymdeithasol; ysbytai; doctoriaid a hyd yn oed athrawon. Ond beth yn union yw ystyr "diogelu"?

Golyga diogelu eich gwarchod. Mae'r holl bobl sy'n gweithio yn y swyddi uchod yn gyfrifol am eich gwarchod rhag niwed.

Mae'r heddlu'n gyfrifol am eich gwarchod rhag dioddef trosedd. Os ydych wedi dioddef trosedd ac wedi dweud wrth yr heddlu, mae ganddynt ddyletswydd i wneud rhywbeth amdano.

Mae llawer o reolau'n gysylltiedig â gwarchod plant a phobl ifainc ac er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu bodloni, mae'r heddlu a gweithwyr eraill megis athrawon, y gwasanaeth tân, doctoriaid ayyb weithiau'n gweithio gyda'i gilydd er mwyn eich

cadw'n ddiogel.

Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (gweler tudalen 1)

hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr heddlu,

ynghyd ag asiantaethau

eraill yn gweithio er mwyn eich diogelu

rhag risg a niwed. Rydym yn paratoi

gwybodaeth ar gyfer y Comisiynydd

Heddlu a Throseddu newydd a fydd yn

amlinellu eu cyfrifoldebau o ran diogelu

plant a phobl ifainc yn Nyfed-Powys.



Cwis.

1. Sawl Sir sy'n llunio ardal Dyfed-Powys?
2. Pwy fydd yn disodli Awdurdodau Heddlu ym mis Tachwedd?
3. Beth yw enw'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol newydd?
4. Pa air orall sydd ar gyfer "diogelu"?
5. Beth a elwir y bobl sy'n ymweld â cheiloedd heddlu?
6. Beth oedd eich prif flaenoriaeth plismona ar gyfer 2012/13?
7. Enwch un hawl sydd gan bobl os ydynt yn cael eu cadw mewn celi heddlu.
8. Bydd yw'r dyddiad ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu?

Ceir atebion ar dudalen 4

Gweithio drosoch chi.

Mae gan yr Awdurdod 4 Aelod Cyswllt sy'n gyfrifol am fynychu cyfarfodydd Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.

Dyma nhw: **Sir Gaerfyrddin** Mrs Ann Williams,

Ceredigion Y Cynghorydd Alun Lloyd Jones,



Sir Benfro Y Cynghorydd David Neale,



Powys Y Cynghorydd Kelvyn Curry





AWDURDOD YR HEDDLU DYFED-POWYS

Pencadlys yr Heddlu

BLWCH POST 99

Llangynnwr

Caerfyrddin

SA31 2PF

Ffôn: 01267 226440

Ffacs: 01267 226448

E-bost: Police.authority@dyfed-powys.pnn.police.uk

Peidiwch ag anghofio - os ydych chi'n dymuno bod yn rhan o'n gwaith, mae sawl ffordd o wneud hynny. Am y newyddion diweddaraf am waith yr Awdurdod, cewch 'hoffi' ein tudalen Facebook: www.facebook.com/DPPAuthority neu fe allwch ein dilyn ar Twitter: www.twitter.com/DPPAuthority. Os ydych chi'n dymuno darllen mwy am ein gwaith, cewch edrych ar ein tudalennau ar XRAY99 www.xray99.co.uk neu, os ydych chi ond eisiau fideo cyflym yn esbonio beth yr ydyn ni'n ei wneud, cewch glacio ar YouTube www.youtube.com/watch?v=wmOeLTQWZ8A. Os nad yw'r un o'r rhain at eich dant, mae ein holl fanylion cyswllt eraill wedi'u rhestru ar ein gwefan www.dyfedpowyspoliceauthority.co.uk.

*Sionhau diogelwch cymunedau ac unigolion yn
Nyfed-Powys a'u hyder yn eu Heddlu*

Beth yw'ch Blaenoriaeth Chi?

Ein rôl ni yw darganfod beth rydych chi'n credu yw'r prif broblemau y dylai'r heddlu fod yn ymdrin â nhw yn eich ardal chi o 2013 ymlaen.

Yn 2012/13, y brif flaenoriaeth ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fe welwch ar dudalen 1 mai hyn hefyd oedd y prif bryder ar gyfer pobl dan 24 oed ac mae'n debyg y bydd hi felly am y flwyddyn nesaf.

Oherwydd bod eich grŵp oedran yn rhan mor fawr o'n cymunedau, rydym wir eisiau clywed wrth gymaint ohonoch

ag sy'n bosibl.

Buom yn bresennol mewn nifer o ddigwyddiadau drwy'r 4 Sir a rhoddir gwybodaeth am y rhain ar ein gwefan.

Os nad ydych chi'n medru bod yn bresennol yn un o'r



DWEUD EICH DWEUD

digwyddiadau hyn, gallwch lenwi'n holiadur ar-lein. Cewch hyd i'r holiadur hwn ar dudalen gartref ein gwefan (rhoddir y manylion uchod).

Mae nifer fawr o blant a phobl ifainc eisoes wedi dweud eu barn wrthym, ond dyma'ch cyfle chi i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnoch chi fel aelodau o'n cymunedau.

Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth am sut y gallwch ddweud eich dweud, cysylltwch â ni yn Awdurdod yr Heddlu fel bod modd i ni drefnu i chi wneud hynny.

ATEBION: 1=4; 2=Comisiynyw yr Heddlu a Throsedd; 3=Mr Carl Langley; 4=Gwarchod; 5=Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddaffa; 6=Ymddygiad Gwrthgymdeithasol; 7=bwyd/diod/blanced/cyfreithiwr/cael rhywun wedi'i hysbys; 8=15 Tachwedd 2012.